**Syr Derek Jones KCB**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

24ain Tachwedd 2016

Annwyl Nick,

Diolch i chi am y cyfle i ymddangos gerbron y Pwyllgor ar gyfer sesiwn ffarwelio cyn imi adael Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru; rwy'n gobeithio y bu'r sesiwn yn ddefnyddiol i chi. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn dau gwestiwn dilynol ynghylch chwythu'r chwiban mewn perthynas â thwyll teithio rhatach ar fysiau ac adnoddau gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru.

**Chwythu'r chwiban am deithio rhatach ar fysiau**

Yn ystod y sesiwn graffu, awgrymodd Lee Waters y codwyd pryderon â swyddogion Llywodraeth Cymru yn 2011 mewn perthynas â thwyll bosibl o ran y cynllun teithio rhatach ar fysiau. Mewn ymateb i gwestiwn dilynol y Pwyllgor, mae cofnodion Panel Sicrwydd Allanol Llywodraeth Cymru, y Panel Chwythu'r Chwiban, llinell gymorth yr Uned Gwrth-dwyll a'r Gwasanaeth Archwilio mewnol wedi'u gwirio. Nid oes cofnod bod y gŵyn hon wedi'i gwneud trwy'r ffyrdd hyn. Os oes angen i mi ymchwilio ymhellach i'r ymholiad hwn, byddai'n ddefnyddiol iawn gwybod pwy yr awgrymir a wnaeth gyfarfod â phwy er mwyn gallu canfod unrhyw bapurau heb orfod defnyddio llawer o adnoddau i chwilio drwy gofnodion 2011 i gyd.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

O ran yr achos o dwyll dilynol yn 2014/15, ni chwythwyd y chwiban i Lywodraeth Cymru. Gwnaeth un o'r Cyfarwyddwyr, a gafodd ei erlyn a'i garcharu am dwyll yn ddiweddarach, fynd at yr heddlu o'i wirfodd i roi gwybod am weithgarwch troseddol.

**Adnoddau gwrth-dwyll**

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ragor o fanylion am Uned Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru a'i chyllideb, a darperir y rhain isod. Fodd bynnag, hoffwn hefyd osod hyn o fewn cyd-destun ehangach - o ran yr adnoddau a ddyrennir i'r gwaith o archwilio a darparu sicrwydd yn ehangach ond y gelwir arnynt yn rheolaidd i ymdrin â gweithgarwch gwrth-dwyll, a defnydd Llywodraeth Cymru o dechnoleg gwrth-dwyll.

Mae Uned Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru yn rhan o'r Is-adran Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd, lle mae'n gweithio law yn llaw â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol (IAS), yr Uned Llywodraethiant Canolog (CGU) a'r Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT). Mae Pennaeth yr Uned Gwrth-dwyll yn swyddog yr heddlu sydd wedi ymddeol sydd â phrofiad o arwain unedau troseddau economaidd ac adennill enillion troseddau. Mae hefyd yn aelod o bwyllgor trefnu Fforwm Twyll Cymru. Mae'r Uned hefyd yn cynnwys 50% o amser Archwilydd Cyfrifiadurol Llywodraeth Cymru. Mae'r aelod o staff hwn wedi'i gymhwyso ag ISACA ac yn Dechnegydd Gwrth-dwyll hyfforddedig â CIPFA. Caiff yr Uned hefyd ei chefnogi gan weinyddydd ac mae ei chyllideb gyffredinol tua £188,000 y flwyddyn.

Er bod yr Uned ei hun yn fach, mae'n chwarae rôl arweiniol ac mewn gwirionedd, mae'n cael cryn gymorth gan weithwyr archwilio, sicrwydd a chyllid proffesiynol yn IAS, CGU, EFAT ac o bob rhan o'r sefydliad i wneud ei waith. Yn 2015, hyfforddwyd grŵp o 14 aelod o staff o'r unedau hyn a rhannau eraill o'r sefydliad i fod yn Dechnegwyr Gwrth-dwyll CIPFA. O ganlyniad i hyn, gallant ymgymryd â'u hymchwiliadau eu hunain yn eu meysydd busnes eu hunain, ymgymryd â'u hymchwiliadau eu hunain o dan gyfarwyddyd yr Uned Gwrth-dwyll, a chynorthwyo Pennaeth yr Uned Gwrth-dwyll â'i waith. O fewn rhaglen waith IAS ar gyfer 2016/17, dyrannwyd 200 o ddiwrnodau archwilio yn benodol ar gyfer ymchwiliadau arbennig a gwaith gwrth-dwyll (am amcangyfrif cost o £55,000). Gan ystyried yr economi, nid ydym wedi ceisio priodoli cost ar gyfer amser yr holl staff eraill sy'n rhan o waith gwrth-dwyll.

Yn ogystal ag adnoddau staff, cefnogir ein gwaith gwrth-dwyll â thechnoleg; mae rhai enghreifftiau ar gael isod. Fel rhan o'n gwaith i wella rheolaeth y grantiau, mae system diwydrwydd dyladwy Llywodraeth Cymru bellach yn rhan o'n system taliadau grant sy'n golygu na ellir talu grantiau heb gofnodi gwaith diwydrwydd dyladwy. Mae gan Lywodraeth Cymru drwyddedau ar gyfer meddalwedd dadansoddi data 'IDEA' a ddefnyddir gan archwilwyr i astudio setiau mawr a chymhleth o ddata. Rydym hefyd yn cynyddu ein defnydd o dechnoleg y Fenter Twyll Genedlaethol, sef 'Application


Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.llyw.cymru

Checker' i ddefnyddio paru data yn rhagweithiol wrth wneud cais am grant. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan y timau'r Môr a Physgodfeydd. Rydym yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru gan ddefnyddio technoleg y Fenter Twyll Genedlaethol i ddatblygu cyfres o ryngwynebau rhwng systemau budd-daliadau tai awdurdodau lleol a Rhentu Doeth Cymru a fydd yn rhoi gwybodaeth iddo am fusnesau i gefnogi'i rôl gydymffurfio.

Mae WEFO hefyd yn defnyddio'r feddalwedd gwrth-dwyll a ddarperir gan y Comisiwn Ewropeaidd, sef 'Arachne'. Mae'n ei ddefnyddio i gynorthwyo'r gwaith o atal a chanfod twyll gan y rheini sy'n cael grantiau.

Gobeithiaf y bydd y crynodeb hwn ar adnoddau a gweithgarwch gwrth-dwyll yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Cofion cynnes,

Derek

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.llyw.cymru